



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Llys y Bryn

**Llys y Bryn
Heol Gelli
Llanelli
SA14 9AD**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

13/04/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Llys y Bryn

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin
Lleuedd cofrestredig	45
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	12 Medi 2017
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae tîm profiadol o staff yn darparu gofal a chymorth sy'n cael ei werthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda drwy eu hymweliadau Rheoliad 73 a'u hoffer archwilio ansawdd. Mae yna reolwr newydd yn y swydd sydd wedi cyflwyno eu cais i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae iechyd a llesiant unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cadarnhau hyn. Mae'r cofnodion gofal yn darparu ymdeimlad o'r unigolyn ond mae angen diweddarau rhai manylion. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da, yn lân heb unrhyw arogleuon drwg, ond gallai'r ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar. Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn malio am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl hefyd a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Er bod y cofnodion gofal yn darparu gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl, gallai'r manylion am gefndir yr unigolyn ddarparu mwy o wybodaeth am yr unigolyn i'r gweithwyr gofal. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr ieched a gofal cymdeithasol proffesiynol i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosib.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddi da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, yr wybodaeth a'r agwedd gywir at ofal. Mae'r staff yn cydnabod profiad y rheolwr newydd a chânt eu cefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau yn glir o ran amddiffyn y bobl a chefnogir hyn gan bolisiâu sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn glir. Mae'r gwasanaeth yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, er y gallai'r ystafelloedd ymolchi cymunol fod yn fwy croesawgar.

Cydnabyddir dewisiadau a barn y bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely ag eitemau sy'n bwysig iddynt megis dodrefn, addurniadau, ffotograffau a gwaith celf. Mae gan y bobl ddewis o ran pryddau bwyd a lluniaeth ac maent yn ymwneud a'u gofal eu hunain cymaint ag y bo modd.

Gofal a Chymorth

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion ac amgylchiadau unigol y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar.

Dywedodd gweithiwr wrthym; *“mae hwn yn lle hyfryd i weithio, rwy'n caru'r preswylwyr, maen nhw i gyd fel teulu”* ac *“rwy'n mwynhau dod i'r gwaith, mae wedi bod yn anodd iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf ond mae wedi bod yn werth chweil i allu gofalu am y preswylwyr”*.

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gofal y maent yn ei dderbyn ac yn canmol y staff, gwnaethant ddweud wrthym, *“mae bod yma wedi helpu cymaint, rydw i'n gwella'n dda a bron yn barod i fynd yn ôl adref”* a *“mae'r gofaluwr yn garedig iawn, does dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw”*. Mae aelodau'r teuluoedd yn gadarnhaol am y gwasanaeth a dywedodd un wrthym, *“maen nhw [y gweithwyr gofal] yn gofalu am fy nhad mor dda, maen nhw'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ac maen nhw bob amser yn groesawgar pan fyddaf yn ymweld”*. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn canmol y gwasanaeth a dywedodd un, *“mae'r staff yn barod iawn i helpu, maen nhw'n dilyn cyfarwyddiadau'n dda”*.

Mae gweithdrefn gwyno glir ar waith, a dywedodd pob un o'r bobol y gwnaethom ni siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Llys y Bryn ac y gallant leisio pryderon pe bai angen. Dywedodd un unigolyn wrthym; *“byddwn i'n siarad ag un o'r merched [y gweithwyr gofal] pe bai gen i bryder”*. Mae perthnasau'n adleisio'r farn hon; *“does gen i ddim pryderon ar hyn o bryd, ond pe bai gen i, byddwn yn siarad â'r rheolwr neu un o'r staff gofal”*. Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn yr wybodaeth a roddir i'r bobl a / neu eu perthnasau pan fyddant yn symud i'r gwasanaeth. Mae hysbysiadau mewn manau cymunol hefyd yn esbonio sut i wneud cwyn.

Mae manylion da yn y cynlluniau gofal a chymorth, ac at ei gilydd, maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Fodd bynnag, dylai'r cynlluniau adlewyrchu anghenion presennol yr unigolyn yn gywir er mwyn sicrhau bod eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu. Bydd hyn hefyd yn helpu'r gweithwyr i gael gwell dealltwriaeth o gefndir yr unigolyn. Lle bo modd, mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal i ddangos eu bod yn ymwneud â'u gofal. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r bobl ac mae hyn yn cael ei nodi yn eu cofnodion gofal.

Mae'r gweithwyr gofal yn bwylllog ac maent yn ymateb i geisiadau gan y bobl mewn da bryd. Mae cyfran o'r tîm staff yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bum seren gyda bwydlenni amrywiol yn cynnwys dewisiadau dyddiol. Caiff bwydlenni eu diweddarau yn ôl y tymor ac mewn ymgynghoriad â phobl. Yn ôl pob golwg, mae adegau bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol a phlesurus iawn. Mae prydau yn cael eu cyflwyno'n dda, maent yn boeth, ac mae dewisiadau ar gael yn rhwydd. Dywedodd un unigolyn wrthym *“mae'r bwyd yn dda iawn, ac mae llawer o ddewisiadau hefyd”*.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid i leihau'r risg a berir gan heintiau. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Mae gwaith profi a chynnal a chadw cyfarpar diffodd tân a symud a thrin yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn unigol ac ar gael yn rhwydd. Mae'r larymau argyfwng fewn cyrraedd ac mae'r bobl yn ymateb iddynt o fewn amser priodol pan fyddant yn canu.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, ac mae gorsafoedd glanweithdra a chyfarpar diogelu personol wedi'u lleoli ledled y cartref. Mae gweithdrefnau profi COVID-19 ar waith ar gyfer pob ymwelydd. Mae mesurau priodol a diogel ar waith i hwyluso ymweliadau gan berthnasau a ffrindiau. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus. Mae sylweddau sydd yn beryglus i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunol yn glir a heb beryglon. Mae gan y staff domestig yr offer priodol i gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel. Mae trefniadau ar waith i olchi a sychu dillad y bobl. Mae gwiriadau gwaith cynnal a chadw, gwaith gwasanaethu ac archwiliadau trwyadl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân a heb unrhyw arogleuon drwg.

At ei gilydd, mae'r amgylchedd yn cefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Cafodd yr amgylchedd ei ad-drefnu yn ystod y pandemig er mwyn diwallu anghenion a sicrhau diogelwch y rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae yna nifer o ardaloedd i'r bobl gyfarfod a chymdeithasu. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eu heiddo personol megis eitemau o ddodrefn, addurniadau, a ffotograffau. Er bod yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn lân, maent yn edrych yn glinigol ac nid ydynt yn groesawgar iawn i'r bobl sydd am fwynhau bath. Mae cofnodion o statws symudedd y bobl ac asesiadau risg cysylltiedig wedi'u lleoli ar flaen drysau ystafelloedd gwely'r bobl a chaiff cofnodion gofal personol eraill eu hongian y tu allan i'w hystafelloedd gwely. Cydnabyddir y gallai fod wedi bod angen yr wybodaeth hon yn ystod anterth y pandemig, fodd bynnag, dylid ei symud i leoliad sydd yn fwy preifat bellach.

Mae perthnasau'n ymwneud â'r gerddi a'r tiroedd cymunol, sydd mewn cyflwr da ac sy'n cynnig mannau i'r bobl gymdeithasu yn yr awyr agored a'u mwynhau yn ystod tywydd cynhesach.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r unigolyn cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac wedi cynnal yr ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis. Mae AGC wedi derbyn copïau o'i adroddiadau, sydd yn dangos eu bod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'r ymweliadau â'r cartref. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn wrthym ni, dywedodd un; *"mae (unigolyn cyfrifol) yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'n treulio amser yn siarad â'r preswylwyr a'r staff bob amser"*. Mae yno ystod o offer monitro a chynhelir ystod o archwiliadau. Mae'r camau sydd eu hangen yn sgil yr archwiliadau hyn yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr newydd yn teimlo bod yr unigolyn cyfrifol yn ei gefnogi. Mae wedi derbyn trosglwyddiad o'r gwasanaeth gan y rheolwr blaenorol, ac wedi bod drwy gyfnod sefydlu a goruchwyliaeth o dan ofal yr unigolyn cyfrifol ers dechrau yn y rôl.

Mae'r staff yn gymwys ac yn wybodus am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn mynychu ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff gofal wrthym am yr hyfforddiant maent yn ei fynychu ac maent yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth amddiffyn y bobl. Mae'r cofnodion personél yn dangos eu bod yn mynd drwy gyfnod sefydlu da, a'u bod yn cael goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"rwy wedi cael fy ngoruchwyllo bob tri mis"*. Mae ffeiliau'r staff wedi'u trefnu'n dda ac yn cadw'r mwyafrif o'r dogfennau gofynnol. Cedwir contractau cyflogaeth yn yr adran Adnoddau Dynol ond dylent fod ar gael i'w gweld yn hawdd.

Mae'r staff yn siarad yn gadarnhaol am y rheolwr ac yn croesawu ei phrofiad o weithio yn y gwasanaeth cyn iddi gael ei dyrchafu. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym *"mae hi [rheolwr] yn gwybod pa mor galed mae'r gofalwyr yn gweithio gan ei bod hi wedi bod yn un ei hun"* ac *"mae hi'n dod â llawer o brofiad gyda hi, mae'n hawdd siarad â hi ac mae hi'n ofalgar"*. Mae'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym *"mae [rheolwr] yn dda iawn, mae hi'n broffesiynol ac yn frwdfrydig iawn"* ac *"rwy'n hoffi'r rheolwr newydd, mae'n ymddangos ei bod yn dda iawn yn ei swydd"*.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol, ac maent yn gallu esbonio eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae yna bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynorthwyo staff.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
AMHERTHNASOL	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	AMHERTHNASOL

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
AMHERTHNASOL	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	AMHERTHNASOL

Dyddiad cyhoeddi 24/05/2022